Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# Adroddiad Arolygu

**Lots of Tots (Canolfan Maerdy)**

**Heol Newydd**
**Tairgwaith**
**Rhydaman**
**SA18 1UP**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

08/12/2023

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Lots of Tots (Canolfan Maerdy)

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal Dydd Llawn |
| Darparwr Cofrestredig | Canolfan Maerdy |
| Lleoedd cofrestredig | 52 |
| Iaith y gwasanaeth | Cymraeg a Saesneg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 23 Mawrth 2018 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Mae lleoedd Dechrau'n Deg ar gael |
| Ydy'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Da** |
| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Da** |

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

## Crynodeb

Mae'r plant yn mwynhau eu hamser yn Lots of Tots ac maent yn dda iawn am gyfathrebu ac yn ddysgwyr chwilfrydig. Maent yn gwneud dewisiadau a phenderfyniadau yn hyderus am yr hyn maent yn ei wneud a sut i dreulio eu hamser yn y lleoliad. Mae'r plant yn meithrin cydberthnasau cadarnhaol â'u ffrindiau a'r staff, maent yn dangos brwdfrydedd, ac maent yn cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau pwrpasol yn seiliedig ar chwarae.

Mae'r staff yn sicrhau eu bod yn darparu lleoliad cynnes a chroesawgar sy'n canolbwyntio ar y plentyn. Maent yn meddu ar ddealltwriaeth dda o anghenion unigol y plant ac maent yn cynllunio'n effeithiol. Mae'r staff yn fagwrus iawn ac yn garedig tuag at y plant. Maent yn ymrwymedig i hyrwyddo canlyniadau cadarnhaol trwy gadw eu gwybodaeth a'u sgiliau yn gyfredol.

Mae'r amgylchedd yn ddiogel ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda. Mae'r ardaloedd chwarae yn groesawgar ac yn gyfeillgar ac yn galluogi'r plant i wella eu chwilfrydedd a bod yn rhydd i archwilio. Ceir adnoddau a chyfarpar da iawn sy'n diwallu anghenion y plant. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn nodi unrhyw risgiau diangen i'r plant yn brydlon ac yn eu dileu lle y bo'n bosibl.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn frwdfrydig ac yn ymroddedig. Maent yn drefnus iawn ac mae ganddynt systemau effeithiol ar waith i werthuso a gwella'u lleoliad. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn cefnogi staff yn dda ac yn meithrin partneriaethau cadarnhaol gyda rhieni a gweithwyr proffesiynol eraill er mwyn hyrwyddo canlyniadau cadarnhaol i'r plant.

## Llesiant **Da**

Mae'r plant yn cyfathrebu'n dda ac mae ganddynt lais cryf. Gallant fynegi eu barn yn hyderus ac maent yn gwybod y bydd y staff yn gwrando arnynt. Er enghraifft, gofynnodd plentyn i'r staff, *"What is this for?"*. Ymatebodd y staff ar unwaith, "*Oooo, let me show you!"* Mae'r plant yn gwneud penderfyniadau'n gyson am beth maent eisiau ei wneud, ble maent eisiau chwarae a gyda phwy maent eisiau chwarae. Mae'r plant yn symud yn rhydd o gwmpas yr ystafelloedd ac yn chwarae gyda'r gweithgareddau sydd o ddiddordeb iddynt, drwy gydol y sesiynau. Er enghraifft, mae rhai plant yn dewis cael stori, mae rhai yn chwarae yn ardal y gegin wrth i'r plant eraill ddewis cymryd rhan yn y gweithgareddau synhwyraidd dan arweiniad y staff.

Mae'r plant wedi ymlacio ac wedi setlo yn y lleoliad. Maent yn ymuno â gweithgareddau ac yn cyfarch ei gilydd drwy wenu a rhoi 'bodiau i fyny'. Mae'r plant yn hoff iawn o'r staff; maent yn elwa ar eu cysondeb sy'n golygu eu bod yn meithrin cydberthnasau cryf gyda nhw. Mae'r plant yn mwynhau dangos eu gwaith celf a'r lluniau sy'n cael eu harddangos, mae ganddynt ymdeimlad cryf o berthyn a theimlant eu bod yn cael eu gwerthfawrogi. Maent yn symud yn annibynnol rhwng tasgau i'r ardaloedd gwahanol yn yr ystafelloedd.

Mae ymddygiad y plant i'w ganmol, maent yn rhyngweithio mewn ffordd gyson dda, ac maent yn dysgu sut i gyd-chwarae, rhannu a gwneud ffrindiau yn y lleoliad. Gwnaethant fwynhau cymryd rhan mewn stori ryngweithiol gyda'i gilydd a gyda'r staff yn fawr iawn. Siaradodd y plant yn hyderus gyda ni, gan ddweud wrthym am eu chwarae a'r gweithgareddau yn y lleoliad. Mae'n amlwg eu bod yn fodlon eu byd ac yn hapus, roedd llawer o chwerthin a chlebran i'w clywed drwy gydol y sesiynau ac roedd y plant yn llawn cyffro wrth ddweud wrthym am yr hyn yr oedd y corachod wedi bod yn ei wneud dros nos.

Mae'r plant yn ddysgwyr chwilfrydig iawn, sy'n uchel iawn eu cymhelliant, ac yn ymroi i chwarae a dysgu. Er enghraifft, gwnaethant ymateb yn frwdfrydig pan oedd modd iddynt ddewis cân i'w chanu gyda'i gilydd. Mae'r plant yn cymryd rhan mewn gweithgareddau yn hyderus ac yn cael ymdeimlad o gyflawniad. Maent yn cael ystod amrywiol o gyfleoedd i gymryd rhan mewn chwarae hunangyfeiriedig, yn ogystal â gweithgareddau cyfeiriedig ac maent yn ymdrochi'n llwyr yn y profiadau a ddewiswyd ganddynt. Er enghraifft, dewisodd rhai plant i gymryd rhan mewn gweithgaredd synhwyraidd gyda'r blawd, y trenau a'r trac trenau. Roeddent yn mwynhau defnyddio'u dychymyg ac roeddent yn chwarae am gyfnod estynedig o amser.

Mae'r plant yn cael llawer o gyfleoedd i ddatblygu eu sgiliau annibyniaeth, gan eu galluogi i wneud pethau drostynt eu hunain yn llwyddiannus. Er enghraifft, mae'r plant yn mwynhau penderfynu pryd maent yn barod i gael byrbryd ac maent yn gweini eu hunain. Maent yn mwynhau amrywiaeth eang o weithgareddau pwrpasol, yn ogystal â'r adnoddau a gynigir, sy'n addas ar gyfer eu hoedran a'u cam datblygu. Maent yn cael llawer o gyfleoedd i

chwarae'n rhydd, yn ogystal â gweithgareddau cyfeiriedig ac maent yn hyderus i gymryd rhan mewn profiadau newydd.

## Gofal a Datblygiad — Da

Mae gan y staff ddealltwriaeth dda o'u rolau a'u cyfrifoldebau mewn perthynas â diogelu plant. Maent wedi cwblhau Gwobr Cynllun Cyn-ysgol Iach a Chynaliadwy, a Gwobr Efydd Iechyd y Gweithle Bach, gan ddangos eu hymrwymiad i hyrwyddo ffyrdd iach o fyw, diogelwch a llesiant y staff, yn ogystal â phlant. Mae'r staff yn cyflawni gweithdrefnau glanhau rheolaidd ac yn dilyn gweithdrefnau hylendid da; er enghraifft, maent yn atgoffa'r plant yn gyson i olchi eu dwylo a chaiff y plant eu hannog i ddefnyddio'r orsaf sychu trwyn yn annibynnol. Mae gan bob aelod o'r staff ddealltwriaeth drylwyr o'u cyfrifoldebau i amddiffyn y plant. Maent yn ymateb yn hyderus am yr hyn dylent ei wneud pe bai ganddynt unrhyw bryderon ynghylch amddiffyn plant. Mae'r staff yn cofnodi amserau presenoldeb y plant ac yn llenwi taflenni damweiniau a ffurflenni anafiadau sy'n bodoli eisoes yn brydlon, gan rannu gwybodaeth berthnasol gyda rhieni.

Mae'r staff yn dangos esiampl dda; maent yn rhyngweithio'n gadarnhaol â'r plant ac yn meithrin cydberthnasau cryf gyda nhw.  Mae eu rhyngweithio'n gyson ac yn fagwrus, gan ddangos cynhesrwydd a charedigrwydd. Mae'r staff yn cynnig canmoliaeth ac anogaeth, ac yn eu cymell i ddweud “os gwelwch yn dda” a “diolch” pan fo'n briodol. Maent yn canmol y plant pan fyddant yn gwrtais yn annibynnol, er enghraifft, *“Well done, you are so polite!”* Mae'r staff yn rhoi strategaethau rheoli ymddygiad ar waith yn aml, gan siarad yn dawel ac mewn ffordd bwyllog iawn gyda'r plant. Mae'r plant yn dilyn cyfarwyddiadau'n dda ac maent yn dysgu rhannu'r adnoddau â'i gilydd. Er enghraifft, roeddent yn cymryd eu tro pan oeddent yn addurno eu bisgedi, gan basio'r eisin nôl ac ymlaen i'w gilydd. Pan fo anghydfod oherwydd bod y plant eisiau'r un adnoddau, mae'r plant yn ymateb yn dda pan fydd y staff yn eu helpu i rannu ac i feddwl am sut y gall eu ffrindiau fod yn teimlo.

Mae'r staff yn sicrhau mai'r plant sydd wrth wraidd eu dysgu a'u datblygiad eu hunain. Maent yn cefnogi eu dewisiadau'n llwyr trwy ganiatáu cyfleoedd iddynt archwilio ac arbrofi drwy ddilyn eu diddordebau eu hunain. Mae'r staff yn adnabod y plant yn dda iawn ac yn uchel iawn eu cymhelliant i ennyn diddordeb y plant, ac ymestyn eu chwarae a'u dysgu. Mae'r staff yn cynllunio yn y foment, sy'n sicrhau eu bod yn ymateb i ddiddordebau a syniadau'r plant, sy'n eu galluogi i ddilyn arweiniad y plant yn llwyddiannus. Mae'r staff yn hyrwyddo'r Gymraeg yn dda iawn yn y lleoliad. Maent yn defnyddio'r Gymraeg yn gyson drwy gydol y sesiwn, ac maent yn ymrwymedig i gefnogi sgiliau Cymraeg y plant sy'n datblygu.

## Yr Amgylchedd — Da

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad weithdrefnau da ar waith i sicrhau eu bod yn cadw'r amgylchedd yn ddiogel i'r plant. Mae'n lân, yn ddiogel ac mewn cyflwr da y tu mewn a'r tu allan. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn cadw cofnod o'r ymwelwyr a ddaw i'r eiddo ac mae'r cofrestrau yn cofnodi'r amser y mae plant, staff ac ymwelwyr yn cyrraedd ac yn gadael y safle'n gywir. Maent yn adolygu eu hasesiadau risg manwl yn rheolaidd i sicrhau bod y staff yn gwybod sut i gadw’r plant yn ddiogel. Mae'r staff yn cynnal gwiriadau diogelwch dyddiol o'r amgylchedd dan do a'r amgylchedd awyr agored er mwyn nodi unrhyw risgiau posib i'r plant a'u dileu. Maent yn trefnu arferion glanhau cyson yn effeithiol, sy'n adlewyrchu arferion rheoli heintiau priodol. Mae'r staff yn cynnal ymarferion gwagio'r adeilad o bydd tân yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod pawb yn gwybod sut i adael yr adeilad yn ddiogel. Maent yn cynnal a chadw ac yn gwirio dyfeisiau yn rheolaidd, mewn modd amserol sy'n cyfrannu at ddiogelwch y lleoliad.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn darparu ardal ysgogol, fawr a hygyrch i'r plant fwynhau eu chwarae drwy sicrhau bod y safle'n gynnes ac yn groesawgar. Mae rhai ystafelloedd wedi'u haddurno mewn lliwiau niwtral sy'n creu awyrgylch digyffro ac ymlaciol. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn ymrwymedig i greu'r awyrgylch hwn drwy'r amgylchedd ac ym mhob ystafell. Maent yn sicrhau bod gan blant y rhyddid i archwilio'r amgylchedd dan do a'r amgylchedd awyr agored yn ddiogel. Mae hyn yn golygu y gall y plant ddewis drostynt eu hunain ble yr hoffent chwarae. Mae'r ardal awyr agored yn darparu lleoedd dysgu ychwanegol pellach drwy ddefnyddio ardaloedd gwahanol. Ceir ystod o gyfarpar dringo, ardal lle mae'r plant yn mwynhau teganau reidio, ac ardal goediog lle mae'r staff yn cefnogi'r plant i ddatblygu eu sgiliau garddio ac ysgol goedwig.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn cynnig ystod dda o adnoddau a chyfarpar o ansawdd uchel. Mae'r plant yn cael mynediad i ystod eang o gyfleoedd chwarae, gan gynnwys chwarae rôl, crefft a phrofiadau synhwyraidd sy'n briodol i oedran a cham datblygu. Ceir byrddau a chadeiriau maint plentyn, yn ogystal â soffas cyfforddus a dodrefn mwy o faint yn yr ystafell ar ôl ysgol sy'n cynnig lle i blant hŷn orffwys ac eistedd arnynt ar gyfer eu gweithgareddau a phrydau bwyd. Ceir ystod amrywiol o adnoddau sy'n cynnwys lliwio, paentio, gweithgareddau chwarae blêr, cerbydau, adnoddau byd bach, gemau, jig-sos a llyfrau. Mae digon o adnoddau ac maent mewn cyflwr da iawn. Mae'r adnoddau yn yr ardal awyr agored yn ymestyn profiadau chwarae'r plant gan eu galluogi i ddatblygu eu chwilfrydedd drwy gymryd rhan mewn chwarae blêr a gweithgareddau adeiladu amrywiol. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn wybodus am reoli risgiau a chefnogi'r plant i wneud eu dewisiadau eu hunain.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth — Da

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn fedrus ac yn brofiadol. Maent yn rheoli'r gwasanaeth i safon uchel ac yn cyfleu eu gweledigaeth yn effeithiol i'r staff. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn creu ethos cadarnhaol lle teimla'r holl staff a'r plant eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u bod yn bwysig. Mae'r gwasanaeth newydd ennill sawl gwobr gan gynnwys Amgylchedd Galluogol, Newid mewn Ethos, Ymgysylltu â'r Gymuned, Lle Mawr a Beiddgar Awyr Agored a Chydnabyddiaeth Arbennig fel sector gwirfoddol yng Ngwobrau Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant Castell-nedd Port Talbot 2023, sy'n cydnabod pwysigrwydd y diwydiant blynyddoedd cynnar a gofal plant. Mae'r datganiad o ddiben yn rhoi gwybodaeth fanwl i'r rhieni am y ffordd y mae'r lleoliad yn rhedeg er mwyn iddynt allu gwneud penderfyniad ar sail gwybodaeth o ran a yw'n addas ar gyfer eu plentyn. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn adolygu eu polisïau a'u gweithdrefnau'n rheolaidd ac yn sicrhau bod y staff yn eu rhoi ar waith yn llwyddiannus. Fodd bynnag, nid yw pob polisi'n adlewyrchu newidiadau diweddar mewn deddfwriaeth. Gwnaethant gadarnhau eu bod yn gweithio ar hyn. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau eu bod yn cyrraedd safonau uchel ac yn darparu cyfleoedd dysgu a datblygu gwerthfawr ar gyfer y staff, yn ogystal â'r plant. Maent yn effeithlon iawn, yn drefnus iawn ac yn rhoi pwys mawr ar redeg gwasanaeth cynhwysol. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau eu bod yn casglu, yn cofnodi ac yn monitro'r cofnodion gofynnol sy'n cael eu cynnal a'u cadw'n dda.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn rhoi systemau effeithiol ar waith i gefnogi proses hunanwerthuso a gwella ystyrlon. Maent yn hawdd mynd atynt ac yn croesawu unrhyw syniadau neu awgrymiadau i wella'u hymarfer. Mae adroddiad ar ansawdd y gofal yn drwyadl ac yn ystyried safbwyntiau ystod eang o weithwyr proffesiynol ac asiantaethau allanol, yn ogystal â phlant, staff, rhieni a gofalwyr. Mae'r adolygiad yn tynnu sylw at eu cryfderau ac yn nodi meysydd y maent yn ymrwymedig i'w datblygu ymhellach. Er enghraifft, maent wedi datblygu llain llysiau pwrpasol sy'n darparu profiadau ystyrlon i blant. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad hefyd wedi creu ystafell synhwyraidd amlswyddogaeth sy'n cefnogi'r gymuned leol, yn ogystal â phlant yn y lleoliad ac maent yn ymrwymedig i wella hyn ymhellach drwy ddarparu adnoddau ychwanegol.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn dilyn prosesau recriwtio amserol a chadarn yn gyson er mwyn diogelu'r plant. Maent yn sicrhau bod gan y staff y cymwysterau a'r profiad angenrheidiol i ofalu am blant a rhoi gweithdrefn sefydlu effeithiol ar waith. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn hapus yn eu rolau a'u bod yn teimlo bod eu hamgylchedd gweithio yn iach a chefnogol. Maent yn derbyn sesiynau goruchwylio rheolaidd ac arfarniadau blynyddol sy'n cefnogi trafodaethau ymhellach ac yn cymell gwelliannau. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn defnyddio staff yn effeithiol er mwyn sicrhau eu bod yn bodloni'r cymarebau staffio ac yn diwallu anghenion unigol y plant.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod cyfathrebu gyda rhieni a gofalwyr yn werthfawr er mwyn hyrwyddo canlyniadau cadarnhaol i'r plant. Maent yn casglu digon o

wybodaeth am ddewisiadau ac anghenion unigol pob plentyn ac yn rhannu gwybodaeth â'r rhieni drwy ddyddiaduron, negeseuon a thrwy gyfathrebu ar lafar. Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad gysylltiadau cadarnhaol ag ystod eang o weithwyr proffesiynol, y gymuned a rhanddeiliaid eraill. Mae'r rhieni'n fodlon iawn ar y lleoliad a gwnaethant sôn bod eu plant yn gwneud cynnydd da ac yn mwynhau mynychu.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni hyn, a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod nad yw'r darparwr yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn tynnu sylw at yr enghreifftiau hyn fel Argymhellion i Gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i ymdrin â'r rhain, a byddwn yn eu hystyried yn yr arolygiad nesaf.

| Safonau Gofynnol Cenedlaethol | |
|---|---|
| Safon | Argymhelliad/argymhellion |
| Safon 4 - Diwallu anghenion unigol | Adolygu'r polisi anghenion dysgu ychwanegol i sicrhau ei fod yn adlewyrchu deddfwriaeth gyfredol. |

| Graddau | Ystyr y graddau |
| --- | --- |
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyhoeddi hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 23/01/2024